

Ysgol Gymunedol Peniel

Polisi E-ddiogelwch

Mae'r polisi yma i amddiffyn plant a'u haddysgu sut i ddefnyddio TGCh yn gyfrifol.

1.1 Cyflwyniad

Mae'r Polisi e-Ddiogelwch yn ymwneud â pholisïau eraill megis y rhai ar gyfer TGCh, bwlio ac amddiffyn plant.

Mae gan yr ysgol Gyd-gysylltydd e-Ddiogelwch.

Ysgrifennwyd ein Polisi e-Ddiogelwch gan yr ysgol, ac mae'n adlewyrchu Canllaw e-Ddiogelwch Sir Gaerfyrddin. Cytunwyd ar hyn a'i gymeradwyo gan y llywodraethwyr.

Bydd y Polisi e-Ddiogelwch a'i weithrediad yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

1.2 Dysgu ac addysgu

1.2.1 Pam mae defnydd o'r Rhyngrwyd yn bwysig

Mae'r Rhyngrwyd yn elfen hanfodol o fywyd yr 21ain ganrif ar gyfer addysg, busnes, a rhyngweithio cymdeithasol. Mae dyletswydd ar yr ysgol i ddarparu mynediad o safon i'r Rhyngrwyd ar gyfer y myfyrwyr fel rhan o'u profiad dysgu.

Mae defnydd o'r Rhyngrwyd yn rhan o'r cwricwlwm statudol ac yn offeryn angenrheidiol ar gyfer y staff a'r disgyblion.

1.2.3 Mae defnydd o'r Rhyngrwyd yn gwella'r dysgu

Mae mynediad yr ysgol i'r Rhyngrwyd wedi'i lunio'n benodol at ddefnydd y disgyblion a bydd yn cynnwys hidlo priodol ar gyfer oedran y disgyblion.

Dysgir y disgyblion pa ddefnydd o'r Rhyngrwyd sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol, a rhoddir amcanion clir iddynt ar gyfer defnydd o'r Rhyngrwyd.

Mae disgyblion yn cael eu dysgu i wneud defnydd effeithiol o'r Rhyngrwyd wrth ymchwilio, gan gynnwys sgiliau dod o hyd i wybodaeth, ei hadalw a'i gwerthuso

1.2.4 Dysgir disgyblion sut i werthuso cynnwys y Rhyngrwyd

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y defnydd o ddeunyddiau a gafwyd o'r Rhyngrwyd gan staff a disgyblion yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint.

Dysgir y disgyblion i fod yn feirniadol ymwybodol o'r deunyddiau maent yn eu darllen, a dangos iddynt sut i ddilysu gwybodaeth cyn derbyn ei bod yn gywir.

1.3 Rheoli Mynediad i'r Rhyngrwyd

1.3.1 Diogelwch systemau gwybodaeth

Mae diogelwch systemau gwybodaeth yr ysgol yn cael eu hadolygu yn gyson.

Mae diogelwch rhag feirws yn cael ei ddiweddarau'n gyson.

Mae strategaethau wrth gefn (gan gynnwys gofynion all-lein ac all-safle) yn cael eu hystyried a'u cyfateb i ofynion yr ysgol o adfer mewn trychineb.

Trafodir strategaethau diogelwch gyda Chyngor Sir Caerfyrddin lle bo hynny'n briodol.

1.3.2 E-bost

Ni chaiff disgyblion ddefnyddio cyfrifon e-bost heblaw'r rhai a gymeradwywyd ar system yr ysgol.

Rhaid i ddisgyblion ddweud wrth athro/athrawes ar unwaith os byddant yn derbyn e-bost tramgwyddus.

Rhaid i ddisgyblion beidio â datgelu manylion personol amdanynt eu hunain nac eraill mewn negeseuon e-bost, na threfnu cwrdd â neb heb gael caniatâd penodol.

Dylid ysgrifennu negeseuon e-bost at gyrff allanol yn ofalus a'u hawdurdodi cyn eu hanfon, yn yr un modd â llythyr a ysgrifennwyd ar bapur pennawd yr ysgol.

Ni chaniateir anfon llythyrau cadwynnau ymlaen.

Ni ddylid anfon negeseuon yn rhybuddio am feirysau ymlaen, gan mai twyll yw'r mwyafrif llethol ohonynt.

1.3.3 Cynnwys a gyhoeddwyd a gwefan yr ysgol

Mae'r manylion cyswllt ar y Wefan yn nodi cyfeiriad, e-bost a rhif ffôn yr ysgol. Ni chyhoeddir gwybodaeth bersonol am y staff na'r disgyblion.

Mae y pennaeth a chydlynnydd TG yn derbyn cyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith golygu ac yn sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn briodol.

1.3.4 Cyhoeddi delweddau a gwaith y disgyblion

Mae ffotograffau sy'n cynnwys disgyblion yn cael eu dethol yn ofalus.

Ni ddefnyddir enwau llawn y disgyblion unrhyw le ar y Wefan neu'r we, yn enwedig wedi'u cyfuno â ffotograffau.

Sicrheir caniatâd ysgrifenedig rhieni neu ofalwyr cyn cyhoeddi ffotograffau o ddisgyblion ar Wefan yr ysgol neu'r we.

1.3.5 Rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol

Mae yr ysgol yn atal/hidlo mynediad i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Mae grwpiau newyddion yn cael eu hatal oni bai bod defnydd penodol wedi'i gymeradwyo.

Cynghorir y disgyblion i beidio byth â rhoi manylion personol o unrhyw fath a allai arwain at eu hadnabod nhw neu eu lleoliad.

1.3.6 Rheoli hidlo

Mae'r ysgol yn gweithio gyda Gwasanaethau TG Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod y systemau ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Os daw'r staff neu'r disgyblion ar draws safle anaddas, rhaid rhoi gwybod am hynny i'r Cydgysylltydd e-Ddiogelwch.

1.3.7 Rheoli fideogynadledda

Mae fideogynadledda IP yn defnyddio'r rhwydwaith band eang addysgol yn hytrach na'r Rhyngrwyd i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a'i ddiogeledd.

Mae'r disgyblion ofyn caniatâd yr athro/athrawes sy'n eu goruchwyllo cyn gwneud neu ateb galwad fideogynadledda.

Mae fideogynadledda'n cael ei oruchwyllo'n briodol yn ôl oedrannau'r disgyblion.

1.3.8 Rheoli technolegau sy'n dod i'r amlwg

Edrychir ar fudd addysgol technolegau sy'n dod i'r amlwg, a chynhelir asesiad risg gan y chyd lynydd cyn caniatáu defnydd yn yr ysgol.

Ni ddefnyddir ffonau symudol yn ystod y gwersi nac oriau ffurfiol yr ysgol.

Gwaherddir anfon negeseuon testun difriol neu amhriodol.

Os mae angen dod mewn a ffôn symudol i'r ysgol gan ddisgybl, bydd rhaid i'r disgybl rhoi y ffon i'r athro i'w cadw'n ddiogel tan diwedd y dydd.

1.3.9 Diogelu data personol

Mae data personol yn cael ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo a'i ddarparu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

1.4 Penderfyniadau Polisi

1.4.1 Awdurdodi mynediad i'r Rhyngrwyd

Rhaid i'r holl staff ddarllen a llofnodi'r 'Cytundeb Defnydd Derbyniol o TGCh' cyn defnyddio unrhyw un o adnoddau TGCh yr ysgol.

Oedolion sydd yn dangos sut mae cael mynediad i'r Rhyngrwyd, gyda mynediad achlysurol dan oruchwyliaeth uniongyrchol i ddeunyddiau penodol a gymeradwywyd ar-lein.

1.4.2 Asesu risgiau

Mae'r ysgol yn cyflawni pob rhagofal rhesymol i sicrhau mai dim ond deunydd priodol y mae'r defnyddwyr yn ei gyrchu. Fodd bynnag, yn sgîl graddfa ryngwladol a natur ddolennog cynnwys y Rhyngrwyd, nid oes modd gwarantu na fydd deunydd anaddas byth yn ymddangos ar gyfrifiadur ysgol. Ni all yr ysgol na Chyngor Sir Caerfyrddin dderbyn atebolrwydd am y deunydd a gyrchir, nac am unrhyw ganlyniadau yn sgîl defnyddio'r Rhyngrwyd.

Mae'r ysgol yn archwilio'r ddarpariaeth TGCh i weld a yw'r polisi e-ddiogelwch yn ddigonol ac a yw'n cael ei weithredu'n effeithiol.

1.4.3 Trafod cwynion e-ddiogelwch

Bydd cwynion am gamddefnyddio'r Rhyngwrwyd yn derbyn sylw gan pennaeth/ chyd lynydd TGCh.

Rhaid cyfeirio unrhyw gwyn am gamddefnydd gan staff at y pennaeth.

Rhaid i gwynion ynghylch amddiffyn plant dderbyn sylw yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol.

1.4.4 Defnydd cymunedol o'r Rhyngwrwyd

Mae'r ysgol yn cysylltu â chyrff lleol i sicrhau agwedd gyffredin at e-ddiogelwch.

1.5 Polisi Cyfathrebu

1.5.1 Cyflwyno'r polisi e-ddiogelwch i'r disgyblion

Mae'r rheolau e-ddiogelwch wedi'u harddangos yn glir lle ceir mynediad i gyfrifiadur, a chânt eu trafod gyda'r disgyblion ar ddechrau pob blwyddyn.

Hysbysir y disgyblion y bydd y defnydd o'r rhwydwaith a'r Rhyngwrwyd yn cael ei fonitro.

1.5.2 Staff a'r polisi e-Ddiogelwch

Mae'r holl staff yn derbyn copi o Bolisi e-Ddiogelwch yr Ysgol, ac eglurir ei bwysigrwydd.

Mae'r staff fod yn ymwybodol y gellir monitro traffig ar y Rhyngwrwyd a'i olrhain yn ôl i'r defnyddiwr unigol. Mae disgrisiwn ac ymddygiad proffesiynol yn hanfodol.

1.5.3 Sicrhau cefnogaeth rhieni

Tynnir sylw rhieni at Bolisi e-Ddiogelwch yr Ysgol mewn cylchlythyron, yn llawlyfr/prospectws yr ysgol, ac ar Wefan yr ysgol.

- Fe'i cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr ar: